

Trin canser eilaidd yr afu/iau drwy rewi (cryotherapi)

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio rhewi (cryotherapi) yn y GIG i drin pobl sydd â chanser eilaidd yr afu/iau. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio canser eilaidd yr afu/iau na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y driniaeth hon yn ddiogel ar gyfer cleifion â chanser eilaidd yr afu/iau. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda mae'n gweithio. Os yw meddyg am ddefnyddio cryotherapy ar gyfer canser eilaidd yr afu/iau, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro bod triniaethau eraill sy'n anelu at ddinistrio celloedd canser (a elwir yn driniaethau 'abladol') ar gael, yn ogystal â'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio a'r risgiau posibl. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Dylai tîm gofal iechyd canser hepatobiliari arbenigol â gwybodaeth arbenigol am ddefnyddio technegau abladol benderfynu pa gleifion allai gael budd o'r driniaeth ac a ddylai ei chael.

Sylwadau eraill gan NICE

Prin yw'r dystiolaeth ynghylch diogelwch y driniaeth hon pan gaiff ei chyflawni gan ddefnyddio technegau twll clo yn hytrach na fel rhan o lawdriniaeth agored.

Efallai nad hon fydd yr unig driniaeth bosibl ar gyfer cancer eilaidd yr afu/iau.

Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch

p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Cryotherapi

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'Cryotherapi i drin metastasisau'r afu/iau'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Metastasisau'r afu/iau yw'r term meddygol am ganser eilaidd yr afu/iau, pan fo cancer mewn un rhan o'r corff (er enghraifft cancer sylfaenol y coluddyn) yn ymledu i'r afu/iau.

Y driniaeth fwyaf effeithiol yw echdorri'r afu/iau, lle y torrir rhannau o'r afu/iau sy'n cynnwys celloedd canseraidd allan drwy lawdriniaeth, ond nid yw hyn yn addas i lawer o gleifion. Mae triniaethau eraill yn cynnwys cemotherapi, radiotherapi a thechnegau abladol sy'n defnyddio ffynonellau ynni i ddinistrio celloedd cancer. Gellir defnyddio cyfuniad o driniaethau.

Gall cryotherapi fod yn opsiwn triniaeth ar gyfer cleifion â chanserau bach (fel arfer hyd at 4 cm ar eu traws). Gellir ei chyflawni fel rhan o lawdriniaeth agored pan fydd y claf o dan anesthetig cyffredinol, neu gan ddefnyddio technegau twll clo pan fydd y claf o dan anesthetig lleol neu gyffredinol. Gosodir un neu fwy o stiliwr i mewn i'r cancer gan ddefnyddio technegau twll clo; gwneir hyn drwy doriad bach a wneir yn y croen. Yna caiff blaen y stiliwr ei oeri yn is na'r rhewbwynt, sy'n creu pêl o rew yn y meinwe amgylchynol sy'n anelu at ddinistrio'r celloedd cancer.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth hon i chi dylai ddweud wrthyfch fod NICE wedi penderfynu er ei bod yn ddiogel, mae amheuan ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael
y driniaeth hon, cael
triniaeth wahanol,
neu beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras isod o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar chwe astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 123 o gleifion, roedd naw allan o 63 o gleifion a gafodd eu trin gan gryotherapi a chemotherapi yn fyw heb ganser ar ôl 10 mlynedd, fel yr oedd tri allan o 60 o gleifion a gafodd eu trin gan echdorri'r afu/iau a chemotherapi. Gwnaeth astudiaeth o 415 o gleifion a gymharai echdorri ar y cyd â chryotherapi gydag echdorri ar ei ben ei hun nodi fod cleifion yn goroesi 29 mis ar gyfartaledd ar ôl y driniaeth gyfunol a 34 mis ar ôl yr echdoriad ar ei ben ei hun.

Mewn astudiaeth o 326 o gleifion, gwnaeth y cleifion oroesi am 29 mis ar gyfartaledd. Tyfodd canser yn ôl mewn 136 o gleifion ar gyfartaledd o 32 mis ar ôl y driniaeth. Yn yr un astudiaeth, ymysg 280 o gleifion lle'r oedd canlyniadau sgan tomograffi cyfrifiadurol (CT) ar gael, roedd y canser wedi sefydlogi (hynny yw, nid oedd yn fwy) mewn 68 o gleifion ac wedi gwaethygu mewn 56. Cafwyd ymateb rhannol mewn 115 o gleifion. Dinistriwyd y canser yn llwyr mewn 41 o gleifion.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai nodau'r driniaeth yw dinistrio'r tiwmor a bod y claf yn goroesi.

Risgiau a phroblemau posibl

Bu farw un claf allan o 55 a gafodd gryotherapi yn ystod, neu'n fuan ar ôl y driniaeth a bu farw wyth allan o 168 o gleifion a gafodd echdorri'r afu/iau mewn astudiaeth o 223 o gleifion. Nodwyd cymhlethdodau a ddigwyddodd yn ystod, neu'n fuan ar ôl, y driniaeth mewn chwe chlaf yn

y grŵp cryotherapi a 44 yn y grŵp echdorri. Bu farw saith claf yn yr astudiaeth o 326 o gleifion, gan gynnwys un o fethiant yr afu/iau ac un o 'syndrom cryosioc' (cymhlethdod anghyffredin a all achosi methiant organau lluosog a cheulo gwaed difrifol). Nododd adroddiad ar un claf a gafodd ei drin ag ail gwrs o gryotherapi (yn ystod llawdriniaeth agored) fod y claf wedi marw o ganlyniad i fethiant yr afu/iau yn gysylltiedig â haint MRSA difrifol a chlot gwaed yn agos at yr afu/iau ddau fis ar ôl y driniaeth.

Nodwyd heintiau a achoswyd gan gryotherapi ar ôl 12 o driniaethau mewn astudiaeth o 150 o gleifion (158 o driniaethau), digwyddodd y rhan fwyaf o'r rhain o fewn tair wythnos i'r driniaeth. Cafodd 108 o gleifion dwymyn yn yr astudiaeth o 326 o gleifion.

Yn yr astudiaeth o 223 o gleifion, cafodd dau allan o 55 o gleifion a gafodd gryotherapi a dau allan o 168 o gleifion a gafodd echdorri'r afu/iau gymhlethdodau gwaedu.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod niwed i strwythurau y tu mewn i'r afu/iau (megis dwythellau'r bustl) a'r tu allan i'r afu/iau ymysg cymhlethdodau hysbys eraill.

Rhagor o wybodaeth am ganser yr iau

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar ganser yr arennau, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'chryotherapi i drin metastasisau'r afu/iau'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG241

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8259-2

N2430 1P December 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.